| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r** | Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol ac Archwilio |
| **Dyddiad y cyfarfod** | 12 Mehefin 2024 |
| **Aelod Arweiniol / Swyddog** | Y Cynghorydd Gwyneth Ellis / Bob Chowdhury – Prif Archwilydd Mewnol |
| **Awdur yr adroddiad** | Bob Chowdhury – Prif Archwilydd Mewnol |
| **Teitl** | Siarter, Strategaeth a Rhaglen Sicrwydd Ansawdd a Gwelliant Archwilio Mewnol 2024-25 |

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1 Mae'r adroddiad hwn yn darparu Siarter, Strategaeth a Rhaglen Sicrwydd Ansawdd a Gwelliant Archwilio Mewnol i'r Pwyllgor ar gyfer 2024-25.

1.2 Mae'r Siarter yn diffinio diben, awdurdod a chyfrifoldeb Archwilio Mewnol yn unol â Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus.

1.3 Mae'r Strategaeth yn darparu manylion y prosiectau Archwilio Mewnol arfaethedig ar gyfer y flwyddyn a fydd yn caniatáu i'r Prif Archwilydd Mewnol ddarparu 'barn' ar ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd fframwaith lywodraethu, risg a rheolaeth y Cyngor yn ystod y flwyddyn.

1.4 Mae Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus yn ei gwneud yn ofynnol i Archwilio Mewnol nodi ei drefniadau sicrhau ansawdd mewn ffurf Rhaglen Sicrwydd Ansawdd a Gwelliant

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1 Mae'n rhaid i Awdurdodau Lleol sy'n atebol i Reoliadau Cyfrifo ac Archwilio (Cymru) gynnal system ddigonol ac effeithiol o archwilio mewnol ar gyfer ei gofnodion cyfrifo a'i system reolau mewnol. Yn unol â Safonau Archwilio

Mewnol y Sector Cyhoeddus, bydd mesurau diogelu yn parhau mewn grym am gyfnod er mwyn cynnal annibyniaeth a gwrthrychedd Archwilwyr Mewnol.

2.2 Bydd y Prif Archwilydd Mewnol yn adolygu'r Siarter bob blwyddyn a'i gyflwyno i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar gyfer cymeradwyaeth terfynol.

2.3 Mae'r Strategaeth yn cynnwys cynllun archwilio mewnol yn seiliedig ar risg sy'n rhoi ystyriaeth i'r gofyniad Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus i ddarparu barn ac adroddiad archwilio mewnol blynyddol y gall y sefydliad ei ddefnyddio i lywio ei ddatganiad llywodraethu. Mae cylch gorchwyl y Pwyllgor hwn yn golygu fod angen iddo ystyried cynlluniau archwilio mewnol.

2.4 Mae'r Rhaglen Sicrwydd Ansawdd a Gwelliant wedi'i ddylunio i ddarparu sicrwydd rhesymol i fudd-ddeiliaid amrywiol y gwasanaeth fod archwilio mewnol yn:

- Perfformio gwaith yn unol â'r Siarter;
- Gweithredu mewn modd effeithiol ac effeithlon; ac
- Ychwanegu gwarth ac yn parhau i wella ei weithrediant.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1 Bod y Pwyllgor yn cymeradwyo'r Siarter Archwilio Mewnol (Atodiad 1) a'r Strategaeth Archwilio Mewnol ar gyfer 2023-24 (Atodiad 2), a'r Rhaglen Sicrwydd Ansawdd a Gwelliant (Atodiad 3).

## 4. Manylion yr adroddiad

4.1 Mae'r prif newidiadau i'r Siarter Archwilio Mewnol yn Atodiad 1 wedi'u cynnwys yn yr adran 'Llinellau Lleoli ac Adrodd' fel a ganlyn:

4.2 Mae mân newidiadau i'r Siarter o ran diweddaru cyfrifoldebau penodol y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, llinellau adrodd y Prif Archwilydd Mewnol a rôl y swyddogion statudol.

4.3 Mae'r Strategaeth Archwilio Mewnol yn Atodiad 2 yn darparu cefndir i'r gwasanaeth archwilio mewnol ynghyd â'r cynllun gwaith diwygiedig ar gyfer y

flwyddyn gan ystyried y pwysau cyllidebol mae’r Cyngor yn ei wynebu ar hyn o bryd ac asesiad risg ac ymgynghori â gwasanaethau.

4.4 Bydd y cynllun gwaith arfaethedig yn caniatáu i’r Prif Archwilydd Mewnol ddarparu ‘barn’ gyffredinol ar gyfer Adroddiad Archwilio Mewnol Blynyddol ar gyfer 2024-25 a llywio’r Datganiad Llywodraethu Blynyddol. Bydd y Pwyllgor hwn yn derbyn adroddiadau gwybodaeth rheolaidd ar gynnydd.

4.5 Yn dilyn Asesiad Sicrwydd Ansawdd Allanol Archwilio Mewnol, mae’r Prif Archwilydd Mewnol wedi ystyried y sylwadau o ran cael adroddiad Rhaglen Sicrwydd Ansawdd a Gwelliant, ac felly, mae wedi’i gynnwys yn Atodiad 3 ac wedi’i dynnu o’r Adroddiad Archwilio Mewnol Blynyddol.

## 5. Sut mae’r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

5.1 Nid oes angen gwneud penderfyniad ynglŷn â’r adroddiad hwn. Nid oes cyfraniad uniongyrchol at y Blaenoriaethau Corfforaethol, ond bydd rhai prosiectau yn y Cynllun yn adolygu meysydd Blaenoriaeth Corfforaethol ac yn darparu sicrwydd ar eu darpariaeth.

## 6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

6.1 Amherthnasol – nid oes penderfyniad na chostau yn gysylltiedig â'r adroddiad hwn.

## 7. Beth yw prif gasgliadau’r Asesiad o Effaith ar Les?

7.1 Nid oes angen penderfyniad na chynnig ar gyfer newid mewn perthynas â'r adroddiad hwn, felly nid oes unrhyw effaith ar bobl sy'n rhannu nodweddion sydd wedi eu gwarchod.

## 8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi'u cynnal gyda Chraffu ac eraill?

8.1 Mae'r Prif Archwilydd Mewnol wedi ymgynghori â'r Tîm Gweithredol Corfforaethol, y Cabinet, Pennaeth Gwasanaeth a'u timoedd rheoli.

## 9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

9.1 Ni cheir goblygiadau ariannol o ganlyniad i'r adroddiad hwn.

## 10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

10.1 Gall methu â chyflwyno lefel ddigonol o archwilio mewnol olygu na all y Prif Archwilydd Mewnol roi 'barn' flynyddol ar ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd fframwaith y Cyngor ar lywodraethu, risg a rheolaeth yn ystod y flwyddyn. Gallai hyn arwain at godi problem lywodraethu sylweddol yn 'natganiad llywodraethu blynyddol' y Cyngor ar ddiwedd y flwyddyn ariannol.

## 11. Pŵer i wneud y penderfyniad

11.1 Amherthnasol - nid oes angen gwneud penderfyniad ynglŷn â'r adroddiad hwn.